

Datganiad Agoriadol i Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol Eryri gan y Pennaeth Polisi Cynllunio, Mrs. Rebeca Jones

Mae tîm cyfan y CDLI yma heddiw, mi fy hun fel Pennaeth Polisi Cynllunio a Chynllunydd tref siartredig, y Prif Swyddog Cynllunio Eiliw Owen sydd hefyd yn gynllunydd tref siartredig, Sion Roberts Swyddog Cynllunio (sydd wedi ail-ymuno â'r tîm yn ddiweddar yn dilyn secondiad i weithio ar gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol) a'r Cynorthwydd Cynllunio ac Ymchwil Elen Hughes. Mae'r tîm bach ond brwdfrydig wedi bod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig a'r dogfennau cysylltiedig. Yn ystod yr archwiliad bydd aelodau'r tîm yn cyflwyno gwybodaeth ac yn cynnig cymorth. Mae gennym 32 mlynedd o brofiad o weithio i'r Parc Cenedlaethol rhyngom ni ac rydyn ni'n credu'n gryf y dylid gwarchod y Parc Cenedlaethol fel bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu mwynhau'r dirwedd ac yn gallu canfod tawelwch tra'n sicrhau bod cymunedau'r Parc Cenedlaethol yn cael eu cefnogi trwy ddarparu'r cyfleoedd ar gyfer tai a chyflogaeth, gan gefnogi'r iaith Gymraeg a hybu datblygiad cynaliadwy.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ystyried y dylai Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol adlewyrchu hynodrwydd lleol ardal y Cynllun trwy gyflawni datblygiadau priodol ar gyfer cymunedau'r Parc Cenedlaethol tra'n sicrhau bod pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn cael eu diwallu.

Mae Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn rhoi cyfrifoldeb statudol ar y Parc Cenedlaethol

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal

Yn ychwanegol at y pwrpasau hyn, mae gan yr Awdurdod ddyletswydd wrth weithredu'r dibenion hyn i:

- Geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol.

Mae'r pwrpasau hyn a'r ddyletswydd i ddarparu ffocws strategol pwysig ar gyfer y Cynllun yn helpu i ddiffinio cwmpas datblygiad yn yr ardal yn y dyfodol. Mae'r berthynas rhwng graddfa datblygiad a'i leoliad yn bwysig wrth ystyried yr effaith ar y dirwedd.

Sefydlodd yr Awdurdod, yn ystod cyfnod paratoi Adroddiad yr Adolygiad, trwy archwilio tystiolaeth a oedd yn cynnwys yr Adroddiadau Monitro Blynyddol bod y strategaeth CDLI bresennol yn cyflawni ac yn parhau i fod yn gadarn, a bod y nifer fach o newidiadau a gynigir a goblygiadau'r rhain ar weddill y cynllun yn golygu mai archwiliad ar ffurf fer oedd y ffordd fwyaf priodol ymlaen.

Mae'r diwygiadau i'r CDLI wedi mynd i'r afael â'r newid yn lleol a'r newidiadau mewn Polisi Cenedlaethol ill dau, ac mae'r rhain wedi arwain at newidiadau i'r polisiau presennol a chyflwyno polisiau newydd er mwyn ymdrin â materion penodol sydd wedi codi.

I amlinellu'r prif newidiadau yn fyr:

- Mae dyddiad diwedd y cynllun wedi'i rowlio ymlaen i 2031
- Mae angen tai newydd wedi'i nodi yn y cynllun gyda safleoedd newydd yn cael eu dyrannu ar gyfer tai
- Mae'r polisi tai wedi ei ddiwygio i adlewyrchu anghenion y cymunedau a materion hyfywedd sy'n gysylltiedig â chyflawni tai

- Cyflwynwyd polisi galluogi newydd i ddelio â datblygiadau ym Mharth Menter Eryri
- Cyflwynwyd polisiâu newydd i ymdrin â llety gwasanaeth newydd a llety gwyliau amgen
- Mae'r polisi manwerthu wedi'i ddiwygio
- Mae'r warchodfa awyr dywyll wedi cael ei gydnabod

Wrth ddiwygio'r CDLI, rydym wedi ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid yn unol â rheoliadau'r CDLI, rydym wedi cynnal cyfarfodydd cyngor cymuned, wedi ymgysylltu gydag aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb ac rydym wedi cael nifer o gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol sydd â diddordeb yn y diwygiadau a gynigir drwy gyfrwng y CDLI.

Rydym yn croesawu'r cyfle i drafod y materion a godwyd gan yr Arolygydd ac rydym yn edrych ymlaen at gyfrannu at drafodaeth gyda'r Arolygydd, Llywodraeth Cymru a phartïon eraill â diddordeb i sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cefnogi lles cymunedau lleol ac yn galluogi datblygiad priodol wrth sicrhau bod tirwedd arbennig a phwysig y Parc Cenedlaethol yn cael ei ddiogelu.